


YSGOL DAVID HUGHES

PORTHAETHWY
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287
Ffacs: (01248) 713919
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk



MENAI BRIDGE
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287
Fax: (01248) 713919
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher
Brian Jones BSc PhD

BWLETIN RHIENI PARENTS' BULLETIN

**IONAWR/JANUARY
2012**

Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch a phob dymuniad da ar gyfer y flwyddyn 2012

**A happy new year to everyone and best
wishes for 2012**

RHAI DYDDIADAU PWYSIG SOME IMPORTANT DATES

10/01/2012 – 02/02/2012	Arholiadau modiwlwr allanol Safon Uwch/UG i fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13. Rhai disgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll modiwlau allanol. External AS/A Level modular examinations for students in Years 12 and 13. Some Year 11 pupils sitting external modular examinations.
Dydd Mawrth/Tuesday 24/01/2012	7.00pm Noson Addysgol Educational Evening
Dydd Mawrth/Tuesday 31/01/2012	3.30pm Noson Rhieni Blwyddyn 11 Year 11 Parents' Evening
Dydd Mawrth/Tuesday 31/01/2012	4.00pm-5.30pm Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher
Dydd Mercher/ Wednesday 01/02/2012	7.00pm Cyfarfod gyda rhieni Blwyddyn 9 i drafod cyrsiau TGAU ac Opsiynau 14+ Meeting with Year 9 parents to discuss GCSE courses and post 14 Options
Dydd Mawrth/Tuesday 07/02/2012	3.30pm Noson Rhieni Blwyddyn 7 Year 7 Parents' Evening
Dydd Iau/Thursday 09/02/2012	7.00pm Cyfarfod gyda rhieni Blwyddyn 11 i rannu gwybodaeth am Opsiynau 16+ yn yr ysgol. A meeting with Year 11 parents to present information about school based Post 16 courses.
13/02/2012 – 17/02/2012	Gwyliau Hanner Tymor Half Term Holidays
Dydd Llun/Monday 20/02/2012	Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd NI FYDD YSGOL I'R DISGYBLION Training Day for teachers NO SCHOOL FOR PUPILS
Dydd Mawrth/Tuesday 21/02/2012	3.30pm – 5.00pm Cyfle i rieni a disgyblion Blwyddyn 11 drafod Opsiynau 16+ gyda'r ysgol, coleg a darparwyr hyfforddiant. An opportunity for Year 11 pupils and parents to discuss 16+ Options with the school, college and training providers.
Dydd Mawrth/Tuesday 28/02/2012	3.30pm Noson Rhieni Blwyddyn 9 Year 9 Parents' Evening
Dydd Mawrth/Tuesday 28/02/2012	4.00pm – 5.30pm Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher
Dydd Iau/Thursday 01/03/2012	Diwrnod y Llyfr World Book Day
01/03/2012 – 09/03/2012	Arholiadau Lefel Mynediad – Blwyddyn 11 Entry Level Examinations – Year 11

Dydd Llun/Monday
02/04/2012 –
Dydd Gwener/Friday
13/04/2012

Gwyliau'r Pasg

Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r Pasg **dydd Gwener, 30 Mawrth** ac yn ailagor **dydd Llun 16 Ebrill.**

Easter Holidays

The school will close for the Easter Holidays on **Friday, 30 March** and will re-open on **Monday 16 April.**

GWEFAN YR YSGOL / SCHOOL WEBSITE

Mae'r ysgol wedi lansio safle we newydd ar gyfer disgyblion, staff a rhieni. Y cyfeiriad yw:

The school has launched a new website for pupils, staff and parents. The address is:

www.ysgoldavidhughes.org

PROBLEM? CWESTIWN?

Mae cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth 4.00pm - 5.30pm nos Fawrth, 31 Ionawr a nos Fawrth, 28 Chwefror 2012. Nid oes angen apwyntiad. Nid noson agored na noson rhieni yw hon ond cyfle i drafod unrhyw bryder ynglŷn â'ch plentyn. Cynhelir un o'r sesiynau hyn bob hanner tymor.

PROBLEM? QUESTION?

There is an opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher 4.00pm-5.30pm on Tuesday, 31 January and Tuesday, 28 February 2012. An appointment is not necessary. This is not an open evening or a parents' evening but an opportunity to discuss any concern regarding your child. There will be one such session each half term.

FFAIR NADOLIG – CYFEILLION YSGOL DAVID HUGHES

Hoffai Cyfeillion Ysgol David Hughes ddiolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Ffair Nadolig a'ch ymdrechion i werthu tocynnau raffl. Fe wnaed elw o **£1,096.59** a bydd yr arian a gasglwyd yn mynd at brynu adnoddau newydd i'r ysgol.

FRIENDS OF YSGOL DAVID HUGHES - CHRISTMAS FAIR

The Friends of Ysgol David Hughes would like to thank the many parents who supported the Christmas Fair as well as selling raffle tickets. A profit of **£1,096.59** will be used to buy new resources for the school.

GWAITH ELUSENNOL

Diolch yn fawr iawn i chi am gefnogi sawl ymgyrch yn ystod y tymor diwethaf. Cefnogwyd sawl achos da, gan gynnwys Operation Christmas Child a Phlant Mewn Angen. Gwerthfawrogir gwaith caled a chefnogaeth disgyblion a rhieni.

APÊL OPERATION CHRISTMAS CHILD

Llenwodd disgyblion Ysgol David Hughes nifer fawr o focsyes esgidiau gydag anrhegion Nadolig ar gyfer apêl Operation Christmas Child eleni. Roedd y lori'n llawn dop yn gadael iard yr ysgol er mwyn danfon y bocsys anrhegion i blant mewn sefyllfaoedd llai ffodus ar draws y byd. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y gweithgaredd hwn.

CHARITY WORK

Thank you for supporting a number of campaigns during last term. Several good causes have benefited, including Operation Christmas Child and Children in Need. The hard work and support of pupils and parents is greatly appreciated.

OPERATION CHRISTMAS CHILD APPEAL

Ysgol David Hughes pupils filled a substantial number of boxes for the appeal. The lorry was full to the brim leaving the school yard in order to deliver the gift boxes to children in less fortunate circumstances across the world. We would like to sincerely thank all who contributed to this appeal.

NOSON ADDYSGOL

Gwahoddir rhieni holl ddisgyblion yr ysgol i ddod i'r ysgol am **7.00 o'r gloch** ar **Nos Fawrth, 24 Ionawr 2012** i drafod y materion canlynol:

- Peryglon Cam-ddefnyddio sylweddau/Cyffuriau
- Diogelwch ar y We

Bydd y sesiynau yn parhau am tua ½ awr yr un ac fe fydd arbenigwyr yn y meysydd uchod ar gael i ateb cwestiynau a chynnig cyngor.

EDUCATIONAL EVENING

Parents of pupils of all ages are invited to join us in school at **7.00 o'clock** on **Tuesday evening, 24 January 2012** to discuss the following:

- The dangers of substance mis-use/Drugs
- Safety on the Internet

Each session should last about ½ hour and specialist advisers will be present to provide guidance and respond to any questions.

DIWRNOD Y LLYFR – 1 MAWRTH 2012

Cynhelir Diwrnod y Llyfr **ddydd Iau, 1 Mawrth** eleni. Fel sy'n arferol bellach bydd y disgyblion yn cael tocyn llyfr gwerth £1.00. Byddant yn cael eu rhannu ddechrau mis Mawrth a gellir eu defnyddio mewn unrhyw siop sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

WORLD BOOK DAY – 1 MARCH 2012

World Book Day will be held this year on **Thursday, 1 March**. As usual, every pupil will receive a £1 book token. The tokens will be distributed at the beginning of March and they can be used at any participating bookshop.

GWISG YSGOL

Diolch am eich cydweithrediad er mwyn sicrhau cysondeb a pharch tuag at reolau ac ethos yr ysgol.

- Hoffwn eich atgoffa hefyd bod caniatâd i'r disgyblion wisgo un pâr o studs yn y clustiau yn unig.
- Disgwylir i ddisgyblion gydymffurfio â steil a hyd gwallt rhesymol ac o liw naturiol.
- Disgwylir i ddisgyblion wisgo esgidiau du fel rhan o'r wisg ysgol.
- Nid ydym yn cymeradwyo'r defnydd o golur yn yr ysgol ond o'i wisgo rhaid i'r defnydd ohono fod yn gynnil.
- Dylai'r sgert ddim bod yn rhy fyr na rhy hir.

Diolch.

SCHOOL UNIFORM

Thank you for your co-operation in ensuring a consistently high standard and respect for school rules and the general ethos of the school.

- We would also like to remind you that pupils are allowed to wear one pair of studs in their ears only.
- Pupils are expected to conform to a respectable length and style of hair, which should be of a natural colour.
- Pupils are expected to wear black footwear as part of the school uniform.
- We do not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be used sparingly.
- The skirt should not be too short nor too long.

Thank you.

GWISG ADDYSG

GORFFOROL

Gofynnwn am eich cydweithrediad i sicrhau bod disgyblion yn dod â'r wisg briodol i bob un o'u gwersi Addysg Gorfforol. Rydym yn ymwybodol iawn o gyflwr y caeau, yn enwedig ym misoedd y gaeaf, ond mae hyn yn ategu'r angen am wisg addas er mwyn i'r disgyblion allu newid yn ôl i'w wisg ysgol ar ôl cael cawod.

PHYSICAL EDUCATION

KIT

We ask for your co-operation in ensuring that pupils bring the correct PE kit to every Physical Education lesson. We are aware of the state of the school fields, especially during the wet winter months, but this really underlines the need for the appropriate kit so that pupils can change back to their school uniform after having a shower.

LLWYDDIANNAU

Cofiwch gysylltu â'r ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwybod am lwyddiant neu gyfraniad arbennig disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion. Gofynnir i chi adael yr wybodaeth a/neu luniau yn y Swyddfa Fawr neu gydag aelod o staff er mwyn i ni gael rhannu'r newyddion ac ymfalchïo yn llwyddiant ein disgyblion. Diolch

SUCSESSES

Please remember to contact the school with information about individual pupils, or groups of pupils' achievements. The information and/or pictures can be left in the Main Office or given to a member of staff and will enable us to share news of successes and achievements with others. Thank you.

RHIENI BLWYDDYN 11/12/13

Mae 2012 yn flwyddyn bwysig iawn i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau allanol eleni. Cynhaliwyd noson rhieni **Blwyddyn 12/13** yn ystod mis Tachwedd a chynhelir noson rhieni **Blwyddyn 11** ar **31 Ionawr 2012**.

Mae llawer o Aseidiadau dan Reolaeth ac Arholiadau Ymarferol sydd yn cyfrannu i raddau terfynol cymwysterau Lefel Mynediad/TGAU/UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal yn ystod gwersi o fis Ionawr 2012 hyd at Fai 2012. Mae presenoldeb y disgyblion ym mhob un o'u gwersi yn allweddol os ydynt am wneud y defnydd gorau o'r cyfle i gyrraedd eu potensial.

Gofynnir am gydweithrediad rhieni i sicrhau lefel uchel o bresenoldeb yn yr ysgol drwy gydol y cyfnod pwysig hwn.

Mae gan y disgyblion hefyd gyfle i ennill llawer iawn o farciau drwy gyflwyno gwaith cwrs o'r safon uchaf bosibl, yn brydlon.

Fel yr ydych yn ymwybodol, ni ddylid dod â ffôn symudol i'r ysgol - mae hyn yn cynnwys yr ystafell arholi. **Mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn dileu marciau'r disgybl am bapur penodol neu hyd yn oed y gyfres gyfan o arholiadau os byddant yn cael eu dal gyda ffôn yn eu meddiant.**

YEAR 11/12/13 PARENTS

2012 will be a very important year for pupils taking external examinations this year. The **Year 12/13** parents' evening was held in November and the **Year 11** parents' evening will be held on **31 January 2012**.

Many controlled Assessments and Practical Examinations which contribute to the final Entry Level/GCSE/AS/A examinations grades will be held during lessons from January 2012 until May 2012. Attendance in every lesson is extremely important if pupils are to realise their potential. Parental support is requested to ensure a high level of attendance throughout this very important period.

Pupils also have an opportunity to gain valuable marks by presenting coursework assignments on time and to the highest possible standard.

As you are aware, mobile phones should not be brought into school – this includes the examination room. **The examination boards have strict rules and pupils will not receive any marks for the paper or, in some cases, the whole series of examinations if they take a mobile phone into an examination room.**

CLWB ASTUDIO BLWYDDYN 11

Cynhelir y clwb astudio pob nos Fercher 3.30pm - 5.00pm er mwyn sicrhau cefnogaeth ac amser i ddisgyblion Blwyddyn 11 baratoi ar gyfer ennill cymwysterau yn 2012. Mae croeso i unrhyw ddisgybl Blwyddyn 11 ddod i'r clwb.

YEAR 11 STUDY CLUB

The study club is held every Wednesday evening 3.30pm – 5.00pm in order to provide support and time, for Year 11 pupils to prepare to achieve qualifications in 2012. Any Year 11 pupil is welcome to attend.

AROLYGWYR ARHOLIADAU / EXAM SUPERVISORS

Os oes gan unrhyw un diddordeb mewn cael ei gyflogi i gynorthwyo i arolygu arholiadau, tybed a fuasech garediced â chysylltu â Mrs Hefina Evans, Rheolwr Systemau. Telir cyflog oddeutu £10.00 yr awr i'r arolygwyr. Diolch yn fawr.

If anyone is interested in being employed to assist in supervising examinations, would you kindly contact Mrs Hefina Evans, Systems Manager. Supervisors will be paid approximately £10.00 an hour. Thank you.

SYSTEM FANDIO

Mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno system fandio cenedlaethol i ysgolion uwchradd yng Nghymru. 'Rydym yn cefnogi'r bwriad i rannu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad a llwyddiannau disgyblion yr ysgol. Serch hynny, mae gennym rhai pryderon ynglŷn â'r drefn bresennol sydd yn seiliedig, yn bennaf, ar berfformiad un grŵp o ddisgyblion yn unig (sef Blwyddyn 11 2010-2011). Mae'r system yn anwybyddu pob blwyddyn arall, gan gynnwys perfformiad ardderchog ein myfyrwyr yn y chweched ddsbarth.

Mae canlyniadau Ysgol David Hughes yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r ardal leol a'r sefyllfa yn genedlaethol dros nifer o flynyddoedd ac ar draws nifer o ddangosyddion. Yn wir, cyhoeddir y canlyniadau yma yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru – gellir eu gweld ar wefan yr ysgol, sef www.ysgoldavidhughes.org.

'Rydym, wrth gwrs, yn ymdrechu'n galed i godi safonau ac i wella perfformiad ein disgyblion. Yn wir, 'rydym yn rhagweld cynnydd pellach mewn canlyniadau TGAU yn yr Haf 2012.

BANDING SYSTEM

The Welsh Government's Minister for Education has decided to introduce a national banding system for secondary schools in Wales. We are fully supportive of the principle of sharing information openly with parents and of ensuring transparency with regard to pupils' performance and achievements. However, we do have some concerns regarding the current arrangements which are primarily based on the performance of one year group (ie Year 11 in 2010-2011). The current framework ignores all other year groups, including the excellent performance of our students in the sixth form.

The school's examination results compare very favourably with the situation locally and nationally over a number of years and across a number of performance indicators. Indeed, these results are published annually by the Welsh Government – they can be viewed on the school's website www.ysgoldavidhughes.org.

We are, of course, fully committed to raising standards and improving the performance of our pupils. Indeed, we do foresee a further improvement in our GCSE results in the summer of 2012.

**Mae Barnardos, Ynys Môn wedi cysylltu â ni er mwyn rhannu gwybodaeth am eu prosiect:
Anglesey Barnardos have contacted us to share information about their project:**

ESCAPE - Prosiect yn gweithio gyda rhieni pobl ifanc 11 oed a drosodd/

A project working with parents of young people aged 11 years old and over

Nod y prosiect yw helpu rhieni i wella cyfathrebu a chydweithrediad gyda'u plant. Mae'r rhaglen 10 wythnos yn helpu rhieni i ystyried dulliau a strategaethau newydd er mwyn delio gyda sefyllfaoedd anodd yn ystod cyfnod o newid.

The aim of the project is to help parents to improve their communication and co-operation with their children. The programme runs for 10 weeks and will help parents to consider new methods and strategies to cope with difficult situations during a period of change.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag/For more information contact: **Emma** neu/or **Lyn**
Ffôn/Tele: **01248 751194** neu/or e-bostio/e-mail: ruralfamilyservice@barnados.org.uk

BLWYDDYN 9 – OPSIYNAU 14 +

Mae **Blwyddyn 9** yn wynebu penderfyniadau pwysig yn ymwneud â'u cyrsiau TGAU/Galwedigaethol am y ddwy flynedd nesaf. Mae'r cyfarfodydd canlynol wedi eu trefnu er mwyn rhannu gwybodaeth am y cyrsiau, egluro'r dewisiadau ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych:-

1 Chwefror 2012 7.00 pm	Cyfarfod gyda rhieni Blwyddyn 9 i drafod cyrsiau TGAU ac Opsiynau 14+.
28 Chwefror 2012 3.30 pm	Noson Rhieni Blwyddyn 9 i drafod gwaith a chynnydd eich plentyn.

BLWYDDYN 11 - OPSIYNAU 16+

Mae disgyblion Blwyddyn 11 hefyd yn wynebu penderfyniadau pwysig iawn wrth edrych ymlaen at y dyfodol, ar ôl yr arholiadau TGAU. Mae'r sefyllfa erbyn hyn yn fwy cymhleth oherwydd nifer o newidiadau i gwricwlwm 16+ yr ysgol. Rydym yn awyddus i rannu gwybodaeth gyda chi am y newidiadau sylfaenol mewn cymwysterau a phatrymau dewis pynciau ôl 16. Hoffem eich gwahodd i'r cyfarfodydd pwysig a drefnwyd ar eich cyfer:-

31 Ionawr 2012 am 3.30pm	Noson Rhieni Blwyddyn 11 i drafod gwaith a chynnydd eich plentyn.
9 Chwefror 2012 am 7.00pm	Cyfarfod i rieni Blwyddyn 11 i esbonio'r opsiynau ar gyfer y flwyddyn nesaf (yn enwedig os yw eich mab/merch yn ystyried dychwelyd i'r ysgol).
21 Chwefror 2012 am 3.30pm	Cyfle i rieni a disgyblion Blwyddyn 11 gyfarfod â chynrychiolwyr o'r ysgol, Gyrfa Cymru, coleg ac asiantaethau hyfforddiant i drafod y camau nesaf.

CHWARAEWYR CERDDORIAETH

Mae nifer o ddisgyblion yn dod â pheiriant cerddoriaeth personol/MP3/iPod i'r ysgol ac maent yn crwydro'r ysgol gyda'r clustffonau yn eu clustiau.

NI CHANIATEIR I DDISGYBLION DDOD Â'R PEIRIANNAU HYN I'R YSGOL.

Os nad yw'r disgyblion yn cadw at y rheol yna bydd rhaid i staff gadw'r peiriant a chysylltu â'r rhieni. Diolch am eich cydweithrediad.

EIDDO

Fe'ch atgoffir mai cyfrifoldeb y disgybl yw eiddo personol. Ni ddylid gadael unrhyw beth gwerthfawr o gwmpas yr ysgol, er enghraifft ar ben y loceri. Gellir gadael unrhyw arian yn y Swyddfa Fawr hyd ddiwedd y dydd, pe dymunir.

YEAR 9 – POST 14 OPTIONS

Year 9 pupils face important decisions regarding their GCSE or Vocational courses for the next two years. The following meetings have been arranged in order to share information about the courses and to answer any questions you may have:-

1 February 2012 7.00 pm	A meeting with Year 9 parents to discuss GCSE courses and Post 14 Options.
28 February 2012 at 3.30 pm	Year 9 Parents' Evening to discuss your child's work and progress.

YEAR 11 - POST 16 OPTIONS

Year 11 pupils are also facing very important decisions regarding their future, following completion of the GCSE examinations. The situation is now further complicated by a number of changes to the school's post-16 curriculum. We would like to share information with you about these changes in qualifications and post-16 option patterns. We therefore invite you to attend the following meetings which have been arranged for your benefit: -

31 January 2012 at 3.30pm	Year 11 Parents Evening to discuss your child's work and progress.
9 February 2012 at 7.00pm	A meeting for Year 11 parents to explain the options available next September (especially if your son/daughter is considering returning to school).
21 February 2012 at 3.30pm	An opportunity for parents and Year 11 pupils to meet representatives from school, Careers Wales, college and training providers to discuss the next steps.

MUSIC PLAYERS

A number of pupils bring personal music/MP3 players/iPods into school and have the earphones attached during the school day.

PUPILS ARE NOT ALLOWED TO BRING THESE ITEMS INTO SCHOOL.

If this rule is not adhered to then staff will confiscate the item and contact the parents. Thank you for your co-operation.

PROPERTY

You are reminded that personal property is the individual pupil's responsibility. Valuables should not be left lying about in school, eg on top of the lockers. Money and valuables can be left in the Main Office until the end of the day if necessary.

TYMOR YR HYDREF / AUTUMN TERM 2011/2012

DIGWYDDIADAU / EVENTS

<p>Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod y cyfnod tiwtorial a gwasanaethau i wella ymwybyddiaeth disgyblion o beryglon bwlio yn ystod Wythnos Gwrth-Fwlio.</p>	<p>A number of activities were arranged for the tutorial period and assemblies to raise awareness of the dangers of bullying during Anti-Bullying Week.</p>
<p>Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant ar gyfer staff ar 11 Tachwedd 2011.</p>	<p>Training day for staff was held on 11 November 2011.</p>
<p>Cynhaliwyd Ffair Nadolig ar nos Wener, 25 Tachwedd. Rydym yn hynod ddiolchgar i Gyfeillion Ysgol David Hughes am eu hymdrechion i godi arian i brynu adnoddau i'r ysgol.</p>	<p>The Christmas Fair was held on Friday, 25 November. We are extremely grateful to the Friends of Ysgol David Hughes for their efforts in raising money to buy resources for the school.</p>
<p>Cynhaliwyd arholiadau mewnol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11.</p>	<p>Year 11 pupils sat internal examinations.</p>
<p>Cafwyd Gwasanaeth Carolau llwyddiannus iawn cyn gwyliau'r Nadolig. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran ac i bawb a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer y gwasanaeth.</p>	<p>A very successful Carol Service was held at the school before the Christmas holidays. We are very grateful to everyone who participated and to those who helped with the preparations for the service.</p>
<p>Llenwodd y disgyblion focsys esgidiau gydag anrhegion ar gyfer Operation Christmas Child unwaith eto eleni.</p>	<p>Pupils filled shoe boxes with gifts for Operation Christmas Child once again this year.</p>
<p>Cynhaliwyd Diwrnod Sgiliau yn yr ysgol ar 29 Tachwedd, gyda phob disgybl o Flwyddyn 7-13 yn mynychu sesiynau 'datblygu sgiliau' yn hytrach na'r gwersi arferol.</p>	<p>The school held a Skills Day on 29 November, with all pupils in Years 7-13 attending sessions designed to develop skills rather than attending their usual lessons.</p>
<p>Cynhelir clwb astudio i ddisgyblion Blwyddyn 11 ar ôl ysgol bob nos Fercher.</p>	<p>A study club is held at the school on Wednesday evenings for Year 11 pupils.</p>
<p>Cynhaliwyd noson agored lwyddiannus iawn ar gyfer rhieni disgyblion Blwyddyn 6 (cynradd) a Blwyddyn 7 ar 8 Tachwedd 2011.</p>	<p>The open evening for parents of Year 6 (primary) and Year 7 pupils on 8 November 2011 was very successful.</p>
<p>Cynhaliwyd Clybiau Ar ôl ysgol am gyfnod o 5 wythnos mewn amryw feysydd.</p>	<p>After schools Club were held for numerous activities for a period of 5 weeks.</p>
<p>Daeth Prosiect Lydia o Gaergybi i gynnal gweithgareddau Iechyd i ddisgyblion Blwyddyn 10 i gyd-fynd â Diwrnod AIDS Byd-Eang.</p>	<p>Project Lydia from Holyhead came to the school to hold Health sessions for Year 10 pupils to coincide with World Aids Day.</p>
<p>Dosbarthwyd asesïadau disgyblion Blynnyddoedd 7-13 yn ystod y tymor, er mwyn darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion, ac i alluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw arwyddion o dangyflawni.</p>	<p>Pupils in Years 7-13 received assessments during this term, to provide information for parents and pupils and to enable the school to respond to any signs of underachievement.</p>
<p>Cynhaliwyd noson rieni ar gyfer Blwyddyn 12 a 13</p>	<p>Parents Evening was held for Years 12 and 13.</p>
<p>Bu nifer o wleidyddion a chynghorwyr lleol yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn ystod gwersi BAC.</p>	<p>A number of local politicians and councillors gave a presentation to Year 12 students during BAC lessons.</p>
<p>Cafwyd cynhyrchiad 'Deadly Mates' i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn yr ysgol.</p>	<p>'Deadly Mates' production was given to Year 11 pupils in the school.</p>
<p>Casglwyd bagiau TEAMS4U o'r ysgol.</p>	<p>TEAMS4U bags were collected from the school.</p>
<p>Cynhaliwyd gweithgaredd Menter a Busnes i ddisgyblion Blwyddyn 9.</p>	<p>Business and Enterprise activities were held for Year 9 pupils.</p>

<p>Daeth Dr Tony Brown, sy'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor i roi sgwrs i fyfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio Saesneg.</p>
<p>Daeth swyddog o'r Cyngor Sir i'r ysgol i gynnal sesiynau i godi ymwybyddiaeth o beryglon alcohol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7, 9 + 11.</p>
<p>Cafwyd cyflwyniadau Atal Troseddu/Arweiniad Cymorth Personol i rai enethod Blwyddyn 11.</p>
<p>Cafwyd cyflwyniad gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 gan cynrychiolydd o'r Coleg</p>
<p>Mae Pwyllgor Bwyd a Ffitrwydd (Grŵp SNAG gynt) wedi bod yn cyfarfod yn ystod y tymor diwethaf.</p>
<p>Casglwyd £1756.44 ar gyfer Plant Mewn Angen drwy gynnal diwrnod di-wisg-ysgol a threfnu amrywiol weithgareddau a choginio a gwerthu bisgedi Pudsey.</p>
<p>Mae Pwyllgor Eco wedi ei sefydlu yn yr ysgol eleni. Nod yw gosod targedau i'r ysgol er mwyn bod yn fwy ecogyfeillgar.</p>

<p>Dr Tony Brown, a lecturer from Bangor University gave a talk to Year 13 students who are studying English.</p>
<p>An officer from the County Council held alcohol awareness sessions at the school for Year 7, 9 + 11 pupils.</p>
<p>Self-Defence/Personal Safety presentation was given to some Year 11 girls.</p>
<p>Presentation by a representative of the Welsh National College was given to Year 12+13 students.</p>
<p>Food and Fitness Committee (formerly SNAG Group) has been holding meetings during last term.</p>
<p>£1756.44 was raised for Children in Need. A 'non-uniform day' and various activities were arranged in order to raise money. Pudsey cakes and biscuits were also baked and sold during morning break.</p>
<p>An eco committee has been established in the school. The aim is to set targets for the school to become more eco-friendly.</p>

YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

<p>Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio BTEC Chwaraeon i Ganolfan Conwy, Llanfairpwll i gymryd rhan mewn cwrs dringo.</p>
<p>Mae rhai disgyblion Blwyddyn 10 yn aelodau o Glwb Celf Genedlaethol ar Ddydd Sadwrn sy'n cyfarfod yng Ngholeg Menai, Bangor, fel rhan o gynllun sy'n cael ei hyrwyddo gan Sefydliad Sorrel.</p>
<p>Mae rhai myfyrwyr Blwyddyn 12+13 sy'n astudio Celf yn mynychu Dosbarthiadau Bywluniad yng Ngholeg Menai, Bangor bob nos Fawrth.</p>
<p>Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 13 ar Daith Adran Hanes i Ferlin am dridiau.</p>
<p>Trefnodd yr Adran Addysg Grefyddol ymweliad â'r Ganolfan Fwdhaidd a Synagog Jackson's Row ym Manceinion.</p>
<p>Cymerodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7 ran mewn gweithgareddau 'Cemeg ar Waith'</p>
<p>Aeth grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 13 i weld perfformiad o'r ddrama 'Journey's End' yn Theatr y Lowry, Salford, Manceinion.</p>
<p>Cymerodd rai o enethod Blwyddyn 9 ran mewn gweithdy 'Genethod mewn Peirianeg'.</p>
<p>Aeth grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 sy'n astudio Drama i weld perfformiad o'r ddrama 'Good' yn Theatr y Royal Exchange ym Manceinion.</p>
<p>Aeth grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 sy'n astudio'r Gymraeg i weld perfformiad o'r sioe gerdd 'Deffro'r Gwanwyn' yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog.</p>

<p>A group of Year 11 pupils studying BTEC Sport visited the Indy Climbing Wall, Llanfairpwll to participate in a climbing course.</p>
<p>Some Year 10 pupils are members of a National Saturday Art Club held at Coleg Menai, Bangor as part of a project promoted by the Sorrel Foundation.</p>
<p>Some Year 12+13 students who study Art attend Life Drawing Classes at Coleg Menai, Bangor every Tuesday evening.</p>
<p>A group of Year 13 students visited Berlin for 3 days, which was organised by the History department.</p>
<p>The Religious Education Department organised a visit to the Buddhist Centre and the Jackson's Row Synagogue in Manchester.</p>
<p>A group of Year 7 pupils took part in 'Chemistry at Work' activities.</p>
<p>A small group of Year 13 students went to see a performance of 'Journey's End' at the Lowry in Salford, Manchester.</p>
<p>A group of Year 9 girls took part in a workshop 'Girls in Engineering'.</p>
<p>A small group of Year 12+13 Drama students went to see a performance of the play 'Good' at the Royal Exchange Theatre in Manchester.</p>
<p>A small group of Year 12+13 Welsh students went to see a performance of the musical 'Deffro'r Gwanwyn' at Glaslyn Leisure Centre in Porthmadog.</p>

Cymerodd rai o enethod Blwyddyn 8 ran mewn gweithdy 'Merched i Beirianeg' ym Mhrifysgol Bangor.

Aeth grŵp o ddisgyblion i gyflwyno **adloniant nadolig** i breswylwyr **Cartref Gofal Springholme** yn Nhraeth Coch cyn y Nadolig.

A group of Year 8 girls took part in a workshop 'Girls into Engineering' at Bangor University.

A group of pupils gave **Christmas entertainment** to the residents of **Springholme Care Home** in Red Wharf Bay before Christmas.

LLWYDDIANNAU/ SUCCESSES

Llongyfarchiadau i **Cara Mai Hope** a **Sacha Lauren Jones** o Flwyddyn 13 am gael eu dewis i gynrychioli Ynys Môn fel **Llysenhadon Ifanc Safon Aur gan Chwaraeon Cymru**.

Bu disgyblion Blwyddyn 10 sy'n dilyn y cwrs **BTEC Chwaraeon** yn llwyddiannus wrth gwblhau cwrs cymorth cyntaf.

Cynrychiolwyd yr ysgol gan grŵp bach o ddisgyblion **Blwyddyn 8** yn rownd sirol cystadleuaeth **Cwis yr Heddlu**.

Cafodd yr ysgol ei gwobrwyo gyda **Cam 5 - Ysgolion Iach** mewn seremoni yng Nghwesty Treysgawen yn ddiweddar.

Cynhelir nifer o weithgareddau ac ymarferion cerddorol y tymor hwn wrth i ni baratoi ar gyfer y **Cyflwyniad Nadolig ar 14 Rhagfyr**.

Daeth tîm o'r ysgol yn fuddugol yng nghystadleuaeth **siarad cyhoeddus yr Urdd**.

Daeth tîm o'r ysgol yn ail agos iawn yng **nghystadleuaeth ffug dreial yn Gymraeg** a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol yng Nghaernarfon.

Cafwyd llwyddiant ym myd chwaraeon yn ystod tymor yr Hydref.

Bu criw bach o ddisgyblion Blwyddyn 9, 10 + 11 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth cemeg 'Top of the Bench' yn yr Adran Gemeg ym **Mhrifysgol Bangor**. Daethant yn gyntaf yn y rownd lleol, ac nawr byddent yn cynrychioli Gogledd Cymru yn y rownd derfynol drwy Prydain ym mis Ebrill.

Congratulations to **Cara Mai Hope** and **Sacha Lauren Jones** from Year 13 who have been chosen to represent Anglesey as **Gold Standard Young Ambassadors by Sports Wales**.

Year 10 pupils following the **BTEC Sport** course successfully completed a first aid course.

A small group of **Year 8** pupils represented the school in the county round of the **Police Quiz competition**.

The school was awarded with **Stage 5 - Healthy Schools** at an awards ceremony held at Treysgawen Hall Hotel recently.

A number of musical activities and rehearsals will be held during this term in preparation for the **Christmas Production on 14 December**.

A team from the school won first prize in the **Urdd public speaking** competition.

A team from the school came a close second in the **Mock Trial in Welsh competition** that was held at the Criminal Justice Centre in Caernarfon.

Teams and individuals celebrated **success in various sports** during the Autumn term.

A small group of Year 9, 10 + 11 pupils took part in a chemistry competition 'Top of the Bench' at the Chemistry Department, at **Bangor University**. They won the local round and will now represent North Wales in the UK final in April.

CLWB CANT ONE HUNDRED CLUB

Enillwyr Mis Tachwedd 2011/November 2011 Winners

Mrs Sian Davies	57	£25.00
Mrs Elizabeth Eickmann	16	£12.00

Enillwyr Mis Rhagfyr 2011/December 2011 Winners

Miss Jenny Hughes	32	£25.00
Mrs Gillian Thomas	19	£12.00

Enillwyr Mis Ionawr 2012/January 2012 Winners

Mrs E A Sutton	33	£25.00
Mrs Julie Ann Owen	20	£12.00

TREFNIADAU ARGYFWNG CAU'R YSGOL

Bydd y trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau a fydd yn cael eu cymryd o fewn yr ysgol:-

1. Cesglir y disgyblion at ei gilydd mewn grwpiau blwyddyn mewn gwahanol ganolfannau yn yr ysgol.
2. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i'nôl y disgyblion.
3. Hysbysir y gorsafoedd radio canlynol bod angen cau'r ysgol:-
BBC Radio Cymru, Radio Wales a Heart FM.
4. Cynghorir rhieni hefyd i edrych ar wefan yr ysgol am unrhyw wybodaeth ynglŷn â chau'r ysgol - www.ysgoldavidhughes.org.
5. Cyhoeddir i'r disgyblion **nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/ffrind agos** (yn unol â'r drefn deuluol).
6. Gelwir y disgyblion i'r bysiau, fesul bws.
7. Defnyddir bws mini'r ysgol i gludo rhai disgyblion gartref os bydd angen.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth parod pan fydd angen gwneud penderfyniad brys. Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion.

Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at bwyt 5 uchod, sef, yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng.

Gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.

Pwysleisiwn eto na ddylai disgyblion adael tir yr ysgol os nad oes mynediad i'w cartrefi neu gartref perthynas/cyfaill, wedi ei drefnu gennych chi o flaen llaw. Byddwn yn sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol hyd at yr amser y byddwch wedi gwneud trefniadau iddynt fynd adref.

Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â hyn.

ARRANGEMENTS IN AN EMERGENCY CLOSING THE SCHOOL

The arrangements will depend on the nature of the emergency but the safety of the pupils and school staff will be our priority at all times.

These are the steps that will be taken within the school:

1. Pupils will be gathered together in year groups at different assembly points in the school.
2. We will arrange for the buses to come to the school to collect the pupils.
3. The following radio stations will be notified that the school is to close:-
BBC Radio Cymru, Radio Wales and Heart FM.
4. Parents are also advised to check the school website for any information regarding closing the school – www.ysgoldavidhughes.org.
5. The pupils will be informed that they are **not to leave the school (walking or on a bus) unless they have entry to their homes or a close relative/friend's home** (according to the family's arrangements).
6. The pupils will be called to the buses, one bus at a time.
7. The school minibus will be used to transport some pupils home if necessary.

This type of situation is very rare, and we appreciate your support when decisions have to be made quickly in an emergency. We can assure you that the pupils' safety is our priority at all times.

We would like to draw your attention to point 5 above in particular, which emphasizes the need for pupils to be clear about the arrangements 'at home' in an emergency situation.

Please ensure that your child is fully aware of the procedures that you wish them to follow in such an emergency.

We emphasize once again that pupils should not leave the school site if they do not have entry to their homes or a relative/close friend's home, as arranged by you beforehand. Alternatively, we will ensure that the pupils are safe at the school until you have made arrangements for them to go home.

Please do not hesitate to contact us if you have any questions on this matter.